

Teitl yr adroddiad: <i>Report title:</i>	Ymateb y Bwrdd Iechyd i Adroddiad Adolygiad Gwasanaeth Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
Adrodd i: <i>Report to:</i>	Y Bwrdd Iechyd - Y Cyhoedd
Dyddiad y Cyfarfod: <i>Date of Meeting:</i>	Dydd Iau 25 Gorffennaf 2024
Crynodeb Gweithredol: <i>Executive Summary:</i>	<p>Mae'r adroddiad a ganlyn yn manylu ar ymateb y Bwrdd Iechyd, y dull gweithredu a'r trefniadau llywodraethu arfaethedig y bydd y Bwrdd Iechyd yn eu defnyddio i gyflawni'r deg thema a nodwyd yn Adroddiad Adolygiad Gwasanaeth Gwahoddedig (IRS) Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (RCPsych).</p> <p>Cafodd yr adroddiad ei ystyried yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd ar 30 Mai 2024, gyda chais i lunio ymateb ffurfiol i ganfyddiadau'r adolygiad. Roedd rhan annatod o'r argymhelliad hwn yn canolbwyntio ar ymgorffori barn teuluoedd a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Llais, yn dilyn eu hadborth yn ystod cyfarfodydd mis Mai (cyfarfod y Bwrdd Iechyd a'r cyfarfod Teuluoedd) am y gofal a ddarparwyd i'w perthnasau. Cafwyd pedair thema allweddol a chamau gweithredu fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Bwrdd i edrych ar arfer gorau o fannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol, a dod â hyn i Ogledd Cymru. • Y Bwrdd i gymryd peth amser i ystyried canfyddiadau'r Gwasanaeth Adolygu Annibynnol, yn hytrach na symud yn rhy gyflym at 'gynllun gweithredu' • Pobl 'y tu allan' i'r Bwrdd i helpu i roi cyngor i'r Bwrdd a throsolwg ar sut mae gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u darparu • Y Bwrdd i dynnu rhai elfennau o'r gwaith pellach sydd ei angen yn yr adroddiad a symud ymlaen cyn gynted â phosibl'. <p>Cynhaliwyd cyfarfod pellach gyda theuluoedd a chydweithwyr Llais ar 17 Gorffennaf 2024, pan rannodd cydweithwyr y Bwrdd Iechyd eu hymagwedd amlinellol tuag at yr ymateb, gan ganolbwyntio ar welliannau cynaliadwy mewn gofal diogel a dibynadwy. Cafwyd adborth gwerthfawr gan y teuluoedd i lunio'r camau nesaf. Mae'r drafodaeth a'r adborth hynny wedi llywio'r papur hwn i'r Bwrdd.</p> <p>Mae'r adroddiad craidd (Adran Un) yn manylu ar flociau adeiladu allweddol/ /sylfeini'r Bwrdd Iechyd a fydd yn cefnogi'r gwelliannau cyffredinol i gefnogi gofal diogel a dibynadwy ar draws ei holl wasanaethau. Disgrifir y rhain o dan y penawdau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu Strategaeth a Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd

- Adnewyddu'r **Model Gweithredu**
- Cyflwyno **System Rheoli Ansawdd: fframwaith ar gyfer gwella (24/25)**
- Y **Polisi Pryderon Integredig** newydd.
- atgyfnerthu **Datblygu Sefydliadol** yn BIPBC: **Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu**
- Parhau â'r gwaith **Cofnod Iechyd Electronig (EHR)** ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- **Ymgysylltu** â Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr
- Ymsefydlu Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd
- **Gweithgarwch Dementia** ar draws y Bwrdd Iechyd, ac mewn partneriaeth

Mae ail adran yr adroddiad yn disgrifio trefniadau llywodraethu lefel uchel i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r cynllun ymateb.

Mae'r drydedd adran yn disgrifio peth o'r cynnydd cadarnhaol sy'n cael ei wneud mewn nifer o'r meysydd thema penodol a amlygwyd gan Adolygiad y Coleg Brenhinol. Nid oes unrhyw gamau gweithredu wedi'u 'cymeradwyo' ar hyn o bryd, gan fod angen sefydlu'r grŵp cynghori arbenigol/craffu annibynnol.

Manylir ar rai uchafbwyntiau isod:

- Mae 'grŵp gorchwyl a gorffen' strategaeth ymgysylltu â gwasanaethau a gofalwyr wedi'i sefydlu gyda chynrychiolaeth eang o bob rhan o'r Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD), a phobl sydd â phrofiad bywyd o'r gwasanaethau. Ffurfiwyd y grŵp hwn yn benodol i ddatblygu Strategaeth Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ar gyfer Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau ac Ymgysylltu â Nhw. Ei nod yw adeiladu ar brofiad da o bob rhan o Gymru a thu hwnt, a bydd 'Lab Cydgynhyrchu Cymru' yn cynnig cymorth.
- Mae timau'r Bwrdd Iechyd yn archwilio mecanweithiau adborth amser real i wella gofal sy'n canolbwyntio ar y claf a'r defnyddiwr.
- Datblygwyd strategaeth iechyd corfforol yn yr adran, ac mae arweinydd iechyd corfforol wedi'i benodi. Bydd grŵp llywio yn datblygu polisi iechyd corfforol cynhwysfawr ar gyfer MHLD. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu tudalen we Iechyd Corfforol, tra bod cymorth gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), yn galluogi dull hybu iechyd ac atal newydd i gael ei dreialu yn nhimau Iechyd Meddwl Cymunedol Sir Ddinbych. Mae ystafell iechyd corfforol bellach wedi'i sefydlu ar safle Heddfan.
- Yn ystod 2024, mae tair nyrs Ansawdd a Datblygu Ymarfer ychwanegol wedi'u recriwtio i'r Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.

	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygwyd drafft o fframwaith deilliannau dysgu'r Bwrdd Iechyd (a oedd hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith Canlyniadau Mesurau Arbennig). • Mae rheolaeth e-restrau ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd. Gan ystyried yr heriau staffio yn yr Uwch Adran MHLD, mae E-Restru yn eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd adrannol allweddol. • Atgyfnerthwyd y cysylltiadau ag AaGIC. Mae llyfryn Gyrfaoedd sy'n ymwneud â gofalwyr iechyd meddwl ar y gweill. • Mae penodi i'r swydd Nyrs Ymgynghorol Dementia (ar gyfer Uwch Adran MHLD) yn dod yn ei flaen yn dda â chynlluniau ar gyfer cynnal cyfweiliadau ym mis Medi 2024. • Mae'r sefyllfa o ran rhaglen achredu wardiau'r Bwrdd Iechyd wedi gwella yn yr Uwch Adran MHLD. Mae tair ward yn anelu at statws Aur o fewn y flwyddyn nesaf. • Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal dwy Gynhadledd Arweinyddiaeth yn ystod 2024 – â thros 700 o gydweithwyr yn bresennol. <p>Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad ar y cynnydd yn erbyn y meysydd a raddiwyd yn Oren neu'n Goch yn adroddiad RCPsych.</p> <p>Yn olaf, mae Atodiad 1 yn rhoi manylion y camau gweithredu penodol yn y cynllun ymateb manwl.</p>		
<p>Argymhellion: <i>Recommendations:</i></p>	<p>Gofynnir i'r Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried ymateb y Bwrdd Iechyd i Adroddiad Adolygiad Gwasanaeth Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion o'r enw 'Moving Forward Together'. • Cymeradwyo'r dull a amlinellwyd a'r trefniadau llywodraethu arfaethedig. 		
<p>Arweinydd Gweithredol: <i>Executive Lead:</i></p>	<p>Carol Shillabeer, Prif Weithredwr</p>		
<p>Awdur yr Adroddiad: <i>Report Author:</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Teresa Owen, Arweinydd Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a'r Gymraeg. • Iain Wilkie, Cyfarwyddwr Uwch Adran, Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. • Carole Evanson, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu 		
<p>Pwrpas yr adroddiad:</p>	<p>I'w Nodi <i>For Noting</i> <input type="checkbox"/></p>	<p>I Benderfynu arno <i>For Decision</i> <input checked="" type="checkbox"/></p>	<p>Am Sicrwydd <i>For Assurance</i> <input type="checkbox"/></p>

Purpose of report:				
Lefel sicrwydd: Assurance level:	Arwyddocaol Significant <input type="checkbox"/> Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</i>	Derbyniol Acceptable <input checked="" type="checkbox"/> Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Rhannol Partial <input type="checkbox"/> Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Dim Sicrwydd No Assurance <input type="checkbox"/> Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth <i>No confidence / evidence in delivery</i>
Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn: <i>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</i>				
Cysylltiad ag Amcan/Amcanion Strategol: <i>Link to Strategic Objective(s):</i>		1: Adeiladau sefydliad effeithiol 3: Diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol 4: Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiadau 5: Amgylchedd dysgu effeithiol		
Goblygiadau rheoleiddio a chyfreithiol: <i>Regulatory and legal implications:</i>		Dim		
Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? <i>In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?</i>		Amherthnasol		
Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal? <i>In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?</i>		Amherthnasol		
Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR) <i>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)</i>		Blaenoriaeth Strategol P18: Ansawdd, Arloesedd a Gwella		
Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith		Dim i'w nodi ar hyn o bryd		

<p>Financial implications as a result of implementing the recommendations</p>	
<p>Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith</p> <p>Workforce implications as a result of implementing the recommendations</p>	<p>Dim i'w nodi ar hyn o bryd</p>
<p>Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori</p> <p>Feedback, response, and follow up summary following consultation</p>	<p>Paratowyd y papur yn dilyn yr argymhellion yn nghyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 30 Mai 2024 i lunio ymateb ffurfiol i ganfyddiadau'r adroddiad.</p>
<p>Cysylltiadau â risgiau BAF: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)</p> <p>Links to BAF risks: (or links to the Corporate Risk Register)</p>	<p>CRR 24-04 Methu â Gwreiddio Gwersi a Ddysgwyd</p>
<p>Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)</p> <p>Reason for submission of report to confidential board (where relevant)</p>	<p>Nid yw'n berthnasol</p>
<p>Camau Nesaf: Next Steps: Gweithredu argymhellion</p> <p>Sefydlu'r fframwaith llywodraethu a argymhellir, a fydd yn cynnwys 'Grŵp Cynghori Arbenigol', wedi'i gadeirio'n annibynnol â chynrychiolwyr o deuluoedd, cydweithwyr Llais a rhanddeiliaid eraill yn aelodau o'r grŵp.</p> <p>Parhau i atgyfnerthu'r gwaith profiadau cleifion a gofalwyr a sicrhau bod hyn yn dylanwadu ar ddatblygiadau'r gwasanaeth yn y dyfodol.</p> <p>Dechrau monitro'r gwaith o weithredu cynllun Ymateb RCPsych, gan ganolbwyntio ar y deg thema a nodwyd.</p> <p>Rhoi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y cynllun Ymateb RCPsych i'r Bwrdd Iechyd gyda throsolwg rheolaidd drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, a hefyd i'r Bwrdd Iechyd - bob chwe mis.</p>	
<p>List of Appendices:</p> <p>Atodiad 1: Coleg Brenhinol y Seiciatryddion - Cynllun Ymateb</p>	

Ymateb BIPBC i Adroddiad Adolygiad Gwasanaeth Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Paratowyd ar gyfer cyfarfod Bwrdd Iechyd BIPBC

25 Gorffennaf 2024

Cyflwyniad

Cynhaliodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (RCPsych) adolygiad o sut y gweithredodd y Bwrdd Iechyd ganfyddiadau pedwar adroddiad blaenorol ac i ba raddau y mae'r rhain wedi'u cynnal a'u hintegreiddio i arferion '*busnes fel arfer*'. Roedd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau canlynol:

- Ockenden 1 (2014)
- Ockenden 2 (2014)
- HASCAS (2018)
- Holden (2013)

Dosbarthodd y Tîm Adolygu eu canfyddiadau yn ddeg thema gan obeithio y byddai hyn o gymorth i'r Bwrdd Iechyd wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer datblygu gwasanaethau a gwella ansawdd.

Dyma'r deg thema:

- ✓ Thema un: Gofal sy'n canolbwyntio ar y claf a'r defnyddiwr
- ✓ Thema dau: Deddfwriaeth a chanllawiau clinigol
- ✓ Thema tri: Llywodraethu
- ✓ Thema pedwar: Staffio
- ✓ Thema pump: Strwythur rheoli
- ✓ Thema chwech: Trefniant y gwasanaethau clinigol
- ✓ Thema saith: Hyfforddi a datblygu
- ✓ Thema wyth: Arweinyddiaeth ac ymgysylltiad staff
- ✓ Thema naw: Adnoddau
- ✓ Thema deg: Yr amgylchedd ffisegol

Cyfarfu'r Bwrdd Iechyd â'r teuluoedd i baratoi ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2024, a thrafodwyd yr Adroddiad yn ffurfiol yn ei gyfarfod Bwrdd ar 30 Mai 2024. Mae'r papurau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

Siaradodd cynrychiolwyr ar ran teuluoedd a Llais yn y cyfarfod, gan nodi eu dymuniad i weld y camau gweithredu yn cael eu cwblhau. Mynegwyd siom nad oedd pob teulu â phrofiad wedi eu cynnwys wrth gyfrannu at yr adolygiad, fodd bynnag, croesawyd y ffocws ar edrych i'r dyfodol a gwneud cynnydd cadarnhaol ar draws gwasanaethau iechyd meddwl, a gwasanaethau oedolion hŷn a dementia yn arbennig.

Cafodd yr adroddiad ei ystyried yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd ar 30 Mai 2024, gyda chais i lunio ymateb ffurfiol i ganfyddiadau'r adolygiad. Roedd rhan annatod o'r argymhelliad hwn yn canolbwyntio ar ymgorffori barn teuluoedd a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Llais

yn dilyn eu hadborth yn ystod cyfarfodydd mis Mai (cyfarfod y Bwrdd Iechyd a'r cyfarfod Teuluoedd). am y gofal a roddwyd i'w perthnasau

Cafwyd pedair thema allweddol a chamau gweithredu fel a ganlyn:

- Y Bwrdd i edrych ar arfer gorau o fannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol, a dod â hyn i Ogledd Cymru.
- Y Bwrdd i gymryd peth amser i ystyried canfyddiadau'r Gwasanaeth Adolygu Annibynnol, yn hytrach na symud yn rhy gyflym at 'gynllun gweithredu'
- Pobl 'y tu allan' i'r Bwrdd i helpu i roi cyngor i'r Bwrdd a throsolwg ar sut mae gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u darparu
- Y Bwrdd i dynnu rhai elfennau o'r gwaith pellach sydd ei angen yn yr adroddiad a symud ymlaen cyn gynted â phosibl'.

Yn ystod trafodaethau'r Bwrdd Iechyd, trafodwyd nifer o themâu allweddol gan gynnwys:

- Atebolrwydd
- Eglurder ynghylch pwrpas wardiau/unedau
- Gosod safonau – gwybod sut olwg sydd ar bethau da
- Diwylliant
- Arweinyddiaeth
- Safoni
- Bod yn agored a thryloyw
- Uchelgais, gyda chais clir i'r Bwrdd Iechyd osod y bar yn uchel.

Cyfarfu'r Bwrdd Iechyd eto â'r teuluoedd a chynrychiolwyr Llais ar 17 Gorffennaf 2024. Rhannodd cydweithwyr y Bwrdd Iechyd amlinelliad o'u hymagwedd at yr ymateb, gan ganolbwyntio ar gyflawni gwelliannau cynaliadwy mewn gofal diogel a dibynadwy ar draws y Bwrdd Iechyd. Pwysleisiodd y teuluoedd unwaith eto'r angen am ffocws ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf, camau gweithredu cynaliadwy, gyda thystiolaeth glir wedi'i chasglu drwy broses glir a thryloyw. Yn ystod y drafodaeth, ail-ddatganodd aelodau'r Bwrdd oedd yn bresennol eu hymrwymiad i atgyfnerthu'r gwaith gyda chleifion, gofalu'r a theuluoedd (y presennol a'r gorffennol) yn y gwaith, ac i gydweithio wrth i'r gwaith ar yr ymateb fynd rhagddo.

Roedd yr adborth yn werthfawr iawn, ac mae wedi llywio'r adroddiad hwn i'r Bwrdd.

Ysgrifennir yr adroddiad hwn mewn tair adran gydag Atodiad 1 yn ddogfen gyfeirio allweddol:

- **Adran 1:** Dull gweithredu system gyfan y Bwrdd Iechyd wrth symud ymlaen.
- **Adran 2:** Y trefniadau llywodraethu i oruchwylio/monitro gweithredu'r cynllun ymateb.
- **Adran 3:** Enghreifftiau o gynnydd cadarnhaol sydd ar y gweill ar draws y Bwrdd Iechyd ac yn yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLDD) - wedi'u halinio â'r deg thema. Diweddariad ar gynnydd rhai o'r camau gweithredu COCH ac OREN (fel y graddiwyd gan RCPsych)
- Yn olaf, mae **Atodiad 1** yn cynnwys y camau gweithredu manwl sydd eu hangen i gau'r argymhellion sy'n weddill. Mae'r gwaith hwn yn waith ar draws y system gyda chamau gweithredu ar draws y system a chamau gweithredu penodol yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLDD). Mae'r camau cyflawni wedi'u halinio â'r deg thema a amlinellwyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion. Mae'r tîm

Trawsnewid yn cynorthwyo i sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu disgrifio'n briodol ar gyfer eu craffu a'u cymeradwyo maes o law.

Adran 1: Camau Gweithredu Allweddol ar Draws y System ledled y Bwrdd Iechyd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i fabwysiadu dull ar draws y system, a'r angen i gymryd camau strategol allweddol i wella gwasanaethau. Mae *'Blwyddyn yn Ddiweddarach: Cynnydd y Bwrdd Iechyd'* (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024), yn manylu ar uchelgais y Bwrdd i gael ei adnabod *'...fel sefydliad sydd â diwylliant tosturiol, gydag arweinyddiaeth amlwg sy'n ymgysylltu â staff, partneriaid a'n cymunedau i fod yn Fwrdd Iechyd y gallant ymddiried ynddo ac y gallant fod yn falch ohono... Rhaid inni ddysgu o'r gorffennol, o'n profiadau blaenorol ac rydym wedi ymrwymo i welliant parhaus'*.

Mae'r Bwrdd wedi cydnabod bod llawer o agweddau ar y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anfodddhaol, gyda methiannau systemig o ran prosesau megis ymdrin â phryderon a chwynion, a gwrando ar bartneriaid a defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac ymgysylltu â nhw. Y diffygion hyn oedd wrth wraidd penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r Bwrdd Iechyd dan Fesurau Arbennig.

O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwneud â rhaglen newid eang ac uchelgeisiol sydd wedi'i hanelu'n bennaf at sicrhau newid hirdymor yn niwylliant y sefydliad, gan ganolbwyntio ar dryloywder, parodrwydd i ddysgu oddi wrth ei brofiad ei hun ac o arfer da mewn mannau eraill, ac ymrwymiad diwro i ansawdd. Mae holl elfennau'r rhaglen hon yn berthnasol i MHLD, fel y maent i bob rhan o'r Bwrdd Iechyd.'

Mae'r rhaglen newid hon yn canolbwyntio ar y blociau adeiladu/sylfeini craidd ar gyfer gwelliannau ar draws y system. Mae'r camau gweithredu hyn yn cyd-fynd â Chynllun Tair Blynedd y Bwrdd Iechyd 24/27 a'r Cynllun Cyflawni Blyneddol 24/25. Mae llawer o'r elfennau 'rhaglen newid' allweddol hyn yn hynod berthnasol er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cyd-fynd ag argymhellion y RCPsych, yn ogystal â gweithgarwch y cynllun ymateb manwl.

Manylir ar y blociau adeiladu allweddol isod:

- Datblygu **Strategaeth** a Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd
- Adnewyddu'r **Model Gweithredu**
- Cyflwyno System Rheoli Ansawdd: **fframwaith ar gyfer gwella (24/25)**
- Y **Polisi Pryderon Integredig** newydd.
- Atgyfnerthu **Datblygu Sefydliadol** yn BIPBC: **Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu**
- Parhau â'r gwaith **Cofnod Iechyd Electronig (EHR)** ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- **Ymgysylltu** â Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr
- Ymsefydlu Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd
- **Gweithgarwch Dementia** ar draws y Bwrdd Iechyd, ac mewn partneriaeth

Datblygu Strategaeth a Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno adolygu ac adnewyddu'r strategaeth i ddiwallu anghenion y sefydliad yn awr, ac yn y dyfodol. Manylir ar hyn yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol, a chynigir datblygu'r strategaeth newydd fel rhaglen newid fawr ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn 24/25, gyda chymorth trawsnewid sylweddol ar waith i sicrhau bod y strategaeth yn addas i'r diben ar gyfer y blynyddoedd i ddod ac ar gyfer y newidiadau yn anghenion y boblogaeth ledled Gogledd Cymru.

Fel rhan o'r datblygiad hwn, bydd cynllun Gwasanaethau Clinigol presennol y Bwrdd Iechyd yn cael ei adolygu a'i ail-lunio. Un o'r gofynion mwyaf fydd sicrhau bod y ddogfen newydd yn bodloni anghenion iechyd/lles corfforol a meddyliol y boblogaeth yng Ngogledd Cymru. Fel cam ymarferol i'r cyfeiriad hwn, mae'r Uwch Adran MHLD wedi adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer ei Grŵp Llwybr Gofal Acíwt i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer cleifion sy'n cael eu derbyn i wasanaethau cleifion mewnol, gan ganolbwyntio ar sut y rheolir risg a diogelwch yn ystod derbyniadau, yn enwedig mewn perthynas â thriniaethau yn y cartref a dulliau trin eraill. Mae ffocws o'r newydd ar ddull canlyniadau a gwerth.

Adnewyddu Model Gweithredu'r Bwrdd Iechyd

Mae 'Model Gweithredu' y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio. Dylai model gweithredu cadarn helpu i sicrhau sefydliad cydlynol. Mae hwn yn faes ffocws ac adolygu yng nghynllun cyflawni blynyddol 24/25. Daw o dan yr adran 'Adeiladu sefydliad effeithiol' (Eitem 1C).

Bu newidiadau gweddol ddiweddar ym modelau gweithredu sawl rhan o'r Bwrdd Iechyd, ond ni chafodd pob uwch adran/gwasanaeth gyfle i gwblhau eu gwaith. Mae model gweithredu'r Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ar fin cael ei adnewyddu, ac mae hyn yn allweddol ar gyfer sefydlogrwydd. O dan arweiniad newydd y Bwrdd, mae gwaith sylweddol ar y gweill i gyflawni'r model gweithredu gorau posibl sy'n cynnwys yr holl wasanaethau/uwch adrannau yn llawn. Cefnogir y gwaith hwn ymhellach wrth i'r swyddi parhaol gwag ar lefel y Gweithredwyr gael eu llenwi.

Mae camau gweithredu allweddol y cytunwyd arnynt i symud y gwaith hwn yn ei flaen yn cynnwys cwblhau'r broses o gloriannu ar draws systemau'r Bwrdd Iechyd, gan ddefnyddio gwaith y Tîm Archwilio Mewnol; deall manteision a phroblemau; asesu'r model partneru busnes sydd ar waith ar hyn o bryd; adolygu a diwygio'r model arweinyddiaeth glinigol a monitro effeithiolrwydd y Fframwaith Perfformiad Integredig.

Cyflwyno System Rheoli Ansawdd: fframwaith ar gyfer gwella (24/25)

Mae'r Ddeddf Dyletswydd Ansawdd yn berthnasol i gyrff y GIG yng Nghymru, a daeth i rym ym mis Ebrill 2023. Mae dau nod cyffredinol:

- Gwella ansawdd gwasanaethau gofal iechyd
- Gwella canlyniadau i bobl yng Nghymru.

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd yng Nghymru sefydlu systemau rheoli ansawdd effeithiol sy'n canolbwyntio ar ddysgu ac yn cael eu gyrru gan Fyrddau Iechyd.

Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r pedair agwedd ar Reoli Ansawdd, Cynllunio Ansawdd, Gwella Ansawdd a Sicrhau Ansawdd gydweithio i ffurfio'r system rheoli ansawdd (QMS). Mae ymrwymiad i fod yn sefydliad sy'n dysgu, sy'n gwella ei hun ac sy'n cael ei arwain gan ddata sy'n gwasanaethu pobl gogledd Cymru yn ganolog i'r model QMS.

Cefnogodd arweinwyr clinigol o bob rhan o'r Bwrdd lechyd ddatblygiad system QMS newydd y Bwrdd lechyd, ac roedd y mewnbwn a'r ymgysylltiad ar draws y timau corfforaethol, y Gweithredwyr ac aelodau'r Bwrdd lechyd yn arwyddocaol. Rhannwyd y dull gweithredu hwn gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yng Nghyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd lechyd ym mis Mai 2024, a gwelir y QMS fel catalydd ar gyfer newid a gwelliannau pellach, gan helpu i adeiladu sefydliad integredig mwy effeithiol. Mae'r dull yn newydd i'r Bwrdd lechyd, ac yn newydd i wasanaethau ieuchyd yng Nghymru yn gyffredinol. Mae'r egwyddor o gyd-gynhyrchu yn rhan o'r gwaith wrth ei gyflwyno'n lleol.

Polisi Pryderon Integredig

Mae polisi newydd yn cael ei ddatblygu gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth i sicrhau bod digwyddiadau, cwynion ac adolygiadau marwolaethau ar draws y Bwrdd lechyd yn cael sylw yn unol â gofynion GIG Cymru.

Mae'r polisi'n cael ei wella wrth ystyried y ffocws ar y pum egwyddor allweddol o ganolbwyntio ar yr unigolyn; tegwch; gonestrwydd; prydlondeb, effeithiolrwydd a chymesuredd; a ffocws ar ganlyniadau a gwelliannau.

Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol (EQDG) y Bwrdd lechyd fydd y grŵp rheoli arweiniol a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei roi ar waith. Mae'r polisi'n cyfeirio at bwysigrwydd gwrando'n llawn ar achwynwyr, a rôl bwysig y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS), sy'n cynnig cyngor a chymorth cyfrinachol.

Mae'r polisi hefyd yn glir ar drefniadau cadw cofnodion mewn perthynas â digwyddiadau, cwynion ac adolygiadau marwolaethau. Disgwylir i'r Bwrdd gymeradwyo'r polisi hwn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024. Yn ei hanfod, mae'r polisi hwn yn sicrhau bod y Bwrdd lechyd nid yn unig yn gweithredu, yn ymchwilio ac yn adrodd mewn modd cadarn – mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn 'dysgu' fel system.

Atgyfnerthu Datblygu Sefydliadol yn BIPBC: Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu

Mae tystiolaeth sylweddol bellach ar gael sy'n dangos fod cael y diwylliant cywir mewn sefydliadau Gofal lechyd yn arwain at ofal gwell a phrofiad cadarnhaol i staff. Yn yr un modd, mae tystiolaeth hefyd yn dangos y cyfraniad pwysig y mae arweinyddiaeth ac arweinwyr effeithiol yn ei wneud ar lunio a datblygu diwylliant; a sut mae diwylliant ac arweinyddiaeth yn rhagofynion ar gyfer cynnwys staff yn eu gwaith a'u sefydliad.

Roedd y maes gwaith hwn yn rhan allweddol o'r Cynllun Ymateb i Fesurau Arbennig yn 23/24, ac fe wneir cynnydd yn y gwaith hwn yn 24/25, dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Mae papurau ar gael ar wefan y Bwrdd.

Gofynnwyd i holl aelodau'r Bwrdd gymryd rhan weithredol yn y gwaith, gyda chymorth gan y tîm Datblygu Sefydliadol. Mae'r elfennau allweddol y canolbwyntir arnynt, sy'n cyd-fynd â Chynllun Cyflawni Blyneddol 24/25, yn cynnwys:

- Archwiliad o ddiwylliant treiddiol y Bwrdd lechyd
- Ailedrych ar werthoedd y sefydliad, a gweithio mewn partneriaeth i brofi ac ail-lunio yn ôl yr angen
- Datblygu fframwaith ymddygiad
- Deialog ac archwiliad gweithredol o'r dulliau arweinyddiaeth y mae'r Bwrdd lechyd yn dymuno eu mabwysiadu
- Rhaglen datblygu arweinyddiaeth gynhwysfawr y cytunir arni

Datblygu Cofnod lechyd Electronig (EHR) ar gyfer Gwasanaethau lechyd Meddwl

Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen newid a moderneiddio gwasanaethau lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Agwedd hollbwysig ar yr agenda foderneiddio hon yw'r angen am gofnod iechyd electronig cynhwysfawr.

Mae sawl adolygiad gan y Bwrdd lechyd (yn hanesyddol ac yn gyfredol), adroddiadau Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru (AGIC), ac adroddiadau gan y Crwner i gyd yn nodi cyfyngiadau'r dull presennol o gadw cofnodion, a'r risgiau o niwed i gleifion, cynnal gwasanaethau, a chyflawni ar amcanion strategol a gweithredol y Bwrdd lechyd.

Datblygwyd Achos Busnes Amlinellol ar y cyd gan y timau Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT) ac MHLD. Mae'r 'Achos' wedi'i rannu â'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (PFIG) ar 25 Mehefin 2024, ac mae bellach wedi'i gyflwyno i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd lechyd yn deall y bydd yr 'Achos' hwn yn cael ei adolygu ym Mhanel Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar 25 Gorffennaf 2024. Bydd yr 'Achos' yn cael ei drafod yn ffurfiol yng nghyfarfod y Bwrdd lechyd ym mis Gorffennaf 2024.

Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr

Mae ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a phrofiad bywyd yn hanfodol wrth lunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn awr ac yn y dyfodol. Dylid ystyried profiad bywyd o'r sbectrwm o gyfraniadau - o bobl a theuluoedd sy'n cymryd rhan lawn yn eu gofal a'u cymorth eu hunain, neu wrth ofalu a chynorthwyo perthynas, hyd at rai sy'n rhoi cyngor i ddarparwyr a chomisiynwyr ar gynlluniau a strategaethau gwasanaeth. Dim ond trwy roi profiad bywyd wrth wraidd y ddarpariaeth ar draws y Bwrdd lechyd cyfan y gellir cyflawni'r canlyniad hwn.

O ran gwasanaethau MHLD, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, gyda chynrychiolaeth eang o bob rhan o'r Uwch Adran MHLD, a phobl sydd â phrofiad bywyd o'r gwasanaethau. Ffurfiwyd y grŵp hwn yn benodol i ddatblygu Strategaeth Uwch Adranol ar gyfer Cynnwys ac Ymgysylltu Defnyddwyr Gwasanaethau. Mae'r grŵp yn cydnabod yn llwyr fod angen i bobl sydd â phrofiad bywyd o wasanaethau fod yn bartneriaid cyfartal yn y gofal a gânt, ac wrth wraidd y gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Nod y gwaith hwn yw adeiladu ar yr arfer da cyfredol o ran cynnwys defnyddwyr gwasanaethau ar draws gwasanaethau, yn ogystal â defnyddio arfer da sy'n bodoli ledled Cymru a thu hwnt.

Ymsefydlu Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd

Ym mis Medi 2023, cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei Fframwaith Rheoli Risg newydd 2023-2025, gan ystyried yr ymrwymiad penodol i sicrhau seilwaith gadarn i reoli risg a sicrhau dull integredig, a lle mae risgiau'n crisialu, i ddangos tystiolaeth o wella. Mae datganiad 'fframwaith risg' y Bwrdd Iechyd yn nodi '*...bydd y Bwrdd Iechyd yn annog staff i weithio mewn partneriaeth gydweithredol â'i gilydd a defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i leihau risg i'r graddau mwyaf posibl a hyrwyddo llesiant cleifion fel rhan o'r ddyletswydd gofal i'r boblogaeth*'.

Mae'r fframwaith yn mynegi'r saerniaeth risg o fewn y Bwrdd Iechyd yn eglur, a'r dull llywodraethu o ymdrin â risg ac uwchgyfeirio i'r Bwrdd, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd, pwyllgorau ac ati.

Gweithgarwch Dementia ar draws y Bwrdd Iechyd, ac mewn partneriaeth

Roedd gwella gofal Pobl Hŷn a gofal Dementia yn thema gyson yn adroddiad RCPsych. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo ar draws Gogledd Cymru. Rhestrir pum maes allweddol y cynllun gwaith Dementia Rhanbarthol isod:

1. Cynlluniau Gweithredu Dementia (DAP).
2. Cynllun Gweithredu Strategaeth Dementia Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
3. Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan (AWDCPS)
4. Gwelliannau Llwybr Cymorth Cof (MSP).
5. Cymunedau Cyfeillgar i Dementia

Ym mis Mawrth 2024, cynhaliwyd digwyddiad i ddathlu Ymgyrch Gwranddo Ymgysylltu Cymunedol ar 14 Mawrth 2024. Daeth hyn â phartneriaid ar draws Gogledd Cymru o'r Bwrdd Iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector, Prifysgol Bangor a'r gwasanaethau golau glas at ei gilydd, er mwyn i bartneriaid gyflwyno a rhannu dysgu, prosiectau a rhaglenni sydd â'r potensial i agor ffyrdd newydd o weithio a datblygu dulliau gweithredu gwreiddiol i gefnogi pobl â dementia a'u gofalwyr.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Grŵp Dylunio Llwybr Dementia sy'n canolbwyntio ar Safonau Dementia a'r Siarter Ysbytai. Mae enghreifftiau cadarnhaol o waith diweddar yn cynnwys gwaith Dementia Connector, a datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr ar gyfer y Siarter. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi adnewyddu ei wefan ymwybyddiaeth am ddementia ac mae'n cynnwys offer hunan astudio ac adnoddau hyfforddi dementia.

Mae gweithwyr cymorth dementia bellach yn eu gwaith yn y Bwrdd Iechyd, ac mae mwy o ffocws yn yr Uwch Adran MHLT ar hyfforddiant dementia a chydymffurfio â hyfforddiant 2 ddiwrnod Lefel 3. Enw'r hyfforddiant hwn yw 'Finding the Light'.

Adran 2: Llywodraethu a Goruchwylio wrth symud ymlaen:

Er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, mae angen sefydlu fframwaith llywodraethu sy'n galluogi cynnydd sy'n dryloyw ac yn atebol â sicrwydd llawn i bawb sy'n gysylltiedig ag ef. Yn dilyn trafodaethau, argymhellir y dull gweithredu canlynol.

- Sefydlu Grŵp Cynghori Arbenigol, wedi'i gadeirio'n annibynnol â chynrychiolwyr o deuluoedd a defnyddwyr, a Llais yn aelodau o'r grŵp. Cytuno ar yr aelodaeth gychwynnol cyn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ym mis Awst 2024.
- Sefydlu Grŵp Gweithredu RCPsych y Bwrdd Iechyd (grŵp rheoli mewnol) a fydd yn adrodd i'r Tîm Gweithredol.
- Monitro a goruchwylio cynnydd/cyflawni'r cynllun ymateb yn rheolaidd drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.
- Cylch gorchwyl i'w ddatblygu ar y cyd a'i gytuno ar gyfer pob grŵp, gyda chefnogaeth Swyddfa'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol.

Er mwyn cefnogi'r broses ymhellach, mae angen cytuno ar weithdrefn ar gyfer darparu tystiolaeth gynyddol a pharhaus o'r camau gweithredu. Mae ffurflen ddrafft Cyflwyno Tystiolaeth wedi'i datblygu i'w defnyddio gan y Grŵp Cyflawni arfaethedig. Gellir trafod ystyriaeth bellach o'r templed/ffurflen hon ar ôl cadarnhau dull Llywodraethu'r Bwrdd Iechyd.

Dylid cymeradwyo'r dull llywodraethu yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) nesaf. Bydd adroddiadau Sicrwydd y Cadeirydd rheolaidd yn cael eu defnyddio i gefnogi'r Grŵp Cynghori Arbenigol a QSE BIPBC.

Bydd angen i'r holl brosesau alluogi arolygiaeth gadarn i wirio, herio a sicrhau ansawdd tystiolaeth a gyflwynir gan bob un o'r grwpiau cyflawni a sicrhau bod y trothwy tystiolaeth wedi'i sicrhau i fodloni disgwyliadau pawb sy'n gysylltiedig.

Bydd storfa ar gyfer y dystiolaeth yn cael ei sefydlu gyda chefnogaeth y tîm trawsnewid a chynllunio – â mynediad yn cael ei ddarparu i gydweithwyr corfforaethol i alluogi'r Grŵp Cynghori Arbenigol i weithredu'n effeithiol ac i gefnogi'r oruchwyliaeth hollbwysig o'r cynnydd drwy fecanwaith goruchwyliaeth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

Adran 3: Enghreifftiau o gynnydd cadarnhaol sydd ar y gweill

Mae'r rhestr ganlynol yn enghreifftiau o'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar draws y Bwrdd Iechyd sy'n cyd-fynd â'r deg thema. Ni roddir statws 'ar gau' ar unrhyw gamau gweithredu heb i'r Grŵp Cynghori arbenigol graffu, a goruchwyliaeth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

Thema	Enghraifft/Diweddariad ar y Cynnydd
Gofal sy'n canolbwyntio ar y claf a'r defnyddiwr	<ul style="list-style-type: none">• Mae 'grŵp gorchwyl a gorffen' strategaeth ymgysylltu â gwasanaethau a gofalcwyr wedi'i sefydlu gyda chynrychiolaeth eang o bob rhan o'r Uwch Adran, a phobl sydd â phrofiad bywyd o'r gwasanaethau. Ffurfiwyd y grŵp

<p>(Mae cynnig i newid geiriad y thema hon i adlewyrchu rôl bwysig teuluoedd a gofalwyr. Bydd angen cymeradwyaeth QSE ym mis Awst)</p>	<p>hwn yn benodol i ddatblygu Strategaeth Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ar gyfer Cynnwys ac Ymgysylltu Defnyddwyr Gwasanaethau. Ei nod yw adeiladu ar brofiad da o bob rhan o Gymru a thu hwnt, a bydd 'Lab Cyd-gynhyrchu Cymru' yn cynnig cymorth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae timau'r Bwrdd Iechyd yn archwilio mecanweithiau adborth amser real i wella gofal sy'n canolbwyntio ar y claf a'r defnyddiwr. • Trefnwyd ymweliadau â'r gwasanaethau yn yr Uwch Adran MHLD - gan wneud aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth yn fwy gweladwy a rhoi cyfle i staff ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw. • Mae BIPBC yn cymryd rhan mewn trafodaethau cenedlaethol i asesu mesurau adborth cleifion a metrigau gyda Llywodraeth Cymru a chydweithwyr eraill. • Mae Tîm Profiad Cleifion (PALS) a Chaniad, ar fin cynnal adolygiad o'r dull presennol er mwyn argymhell aliniad cryfach rhwng yr Uwch Adran MHLD a phrosesau corfforaethol Profiad Cleifion a Gofalwyr. Er mwyn gwireddu hyn, mae'r Grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr a chynrychiolwyr o'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu a datblygu Strategaeth Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a Gofalwr ar gyfer yr Uwch Adran. • Mae adborth ar dabled yn cael ei ddefnyddio'n gadarnhaol ar draws y Tîm Profiad Cleifion, gan gasglu straeon a phrofiadau ar y "foment". I gefnogi'r gweithgaredd hwn, mae pob maes ar draws yr Uwch Adran MHLD wedi'u mapio i CIVICA.
<p>Deddfwriaeth a chanllawiau clinigol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Uwch Adran wedi datblygu Strategaeth Gofal Iechyd Corfforol, sy'n canolbwyntio ar chwe maes - Llywodraethu, Hybu Iechyd ac Atal Clefydau, Hyfforddiant, Gofal Iechyd Corfforol mewn Gwasanaethau, Technoleg Gwybodaeth a datblygu Meddyg Cyswllt. • Sefydlwyd Grŵp Gweithredu Iechyd Corfforol i roi'r strategaeth ar waith, sy'n adrodd i'r Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol a Grŵp Darparu Ansawdd Gwasanaeth MHLD. Mae Arweinydd Iechyd Corfforol wedi'i benodi ac mae grŵp llywio yn datblygu'r gwaith o lunio Polisi Iechyd Corfforol cynhwysfawr i MHLD sy'n cyd-fynd â'r strategaeth hon. Bydd hyn yn sicrhau bod prosesau ar waith i gynorthwyo staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i wneud hynny i fonitro iechyd corfforol. • Mae'r Grŵp Gweithredu Iechyd Corfforol wedi cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu Tudalen We Iechyd Corfforol i fod yn adnodd i ymarferwyr. • Mae prosiect peilot, gyda chefnogaeth cyllid Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), hefyd wedi cytuno'n ddiweddar i ganolbwyntio ar Hybu Iechyd Ac Atal yn Nhimau Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT) Sir Ddinbych. Bydd y tîm yn

	<p>cynnwys Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd gan gynnwys mynediad at Therapydd Galwedigaethol a Deietegydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae'r Uwch Adran MHLD wedi recriwtio tair Nyrs Ansawdd a Datblygu Ymarfer ychwanegol yn ogystal â'r un WTE y recriwtiwyd yn 2021. • Datblygwyd Ystafell lechyd Corfforol yn Uned Heddfan i gynorthwyo pob agwedd ar Fonitro Gofal lechyd Corfforol. • Mae'r Uwch Adran hefyd wedi ymuno â POMH-UK (Arsyllfa Rhagnodi ar gyfer lechyd Meddwl) ac wedi cynnal archwiliad cynhwysfawr yn 2021. Disgwylir archwiliad arall yn ystod y 12 mis nesaf.
Llywodraethu	<ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyodd y Bwrdd lechyd ei System Rheoli Ansawdd (QMS) yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2024, ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu'r cymorth i wasanaethau i ymgorffori hyn ar draws y sefydliad yn ystod 2024-25 dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio. • Disgwylir i'r Bwrdd lechyd gymeradwyo ei Bolisi Pryderon Integredig newydd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024. Bydd y polisi newydd hwn yn rhoi mwy o eglurder ac ymagwedd integredig at reoli digwyddiadau, cwynion ac adolygiadau marwolaethau, a bwriedir ei weithredu o fis Medi ymlaen. • Ym mis Medi 2023, lansiodd Llywodraeth Cymru "Cysylltu Gofal: Trawsnewid Digidol Gwasanaethau lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu i Bob Oedran". Mae Gofal lechyd Digidol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, wedi bod yn gweithio gyda Byrddau lechyd ac Awdurdodau Lleol ledled Cymru i sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen i ddiffinio'r cynnwys a'r swyddogaethau sydd eu hangen mewn system ddigidol, i arweinwyr y farchnad. Mae BIPBC wedi bod yn cefnogi'r ffrwd waith hon yn llawn ac wedi meithrin perthynas dda gyda'r timau cenedlaethol. Cydnabyddir mai gwasanaethau MHLD BIPBC yw un o'r gwasanaethau â'r lleiaf o gefnogaeth ddigidol yng Nghymru. Oherwydd hyn roedd y Bwrdd lechyd wedi cymeradwyo datblygu achos busnes amlinellol. Nid yw'r achosion yn cystadlu â'i gilydd ond maent yn cael eu datblygu ar y cyd er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfle i ddod ag atebion digidol i Ogledd Cymru. • Datblygwyd drafft o fframwaith deilliannau dysgu'r Bwrdd lechyd (a oedd hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith Canlyniadau Mesurau Arbennig).
Staffio	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rheolaeth e-restrau ar waith ar draws y Bwrdd lechyd. O ystyried yr heriau staffio yn yr Uwch Adran lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, mae E-Restru yn eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd adrannol allweddol. • Atgyfnerthwyd y cysylltiadau ag AaGIC. Mae llyfryn Gyrfaoedd sy'n ymwneud â gofalwyr lechyd meddwl ar y gweill.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gwasanaeth Lles, Gwaith a Ni yn parhau i ddarparu cymorth ac ymyrraeth i staff MHLD ar adegau o angen. Mae Adroddiadau Blynyddol ar gael ar weithgarwch y gwasanaeth. • Mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn ffocws i'r Uwch Adran MHLD, ac mae'r mesurau arloesol amrywiol a roddwyd ar waith wedi arwain at leihad yn y gyfradd swyddi gwag yn ystod y chwe mis diwethaf. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio amryw o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i arddangos yr Uwch Adran ac mae wedi mynychu digwyddiadau recriwtio i godi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael ar draws yr holl wasanaethau ledled Gogledd Cymru. Mae'r gweithgarwch presennol yn cynnwys datblygu llwybr gyrfa Cynorthwywyr Gofal Iechyd i alluogi'r Uwch Adran MHLD i "feithrin ein nyrsys ein hunain" ar gyfer y dyfodol.
Strwythur rheoli	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd cynnydd yn cyd-fynd â rhoi'r Model Gweithredu ar waith. Datblygwyd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer MHLD i sicrhau bod yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.
Trefniadau Gwasanaethau Clinigol	<ul style="list-style-type: none"> • Atgyfnerthwyd gweithgarwch archwilio ar draws y Bwrdd Iechyd a'r Uwch Adran MHLD. Yn ystod mis Tachwedd 2023, ac fel rhan o Gynllun Gwella Hysbysiad Tramgwyddo (NOC) yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cynhaliwyd cyfres o archwiliadau adolygu gan gymheiriaid ar Gynlluniau Gofal a Thriniaeth. Amlygodd yr archwiliad lefel uchel o gydymffurfiaeth â'r pedair prif thema, sef: A gwblhawyd Fformiwleiddiad Risg Rhan B? Cydymffurfiaeth yr Uwch Adran yw 98.7%. A gwblhawyd Cynllun Gofal a Thriniaeth Cleifion Mewnol? Cydymffurfiaeth yr Uwch Adran yw 94.5%. A yw'r claf mewn gwely priodol? Cydymffurfiaeth yr Uwch Adran yw 99.2%. A yw'r fersiwn gyfredol o'r Ffurflen Monitro Therapiwtig, Ymgysylltu ac Arsylwi yn cael ei chwblhau? Cydymffurfiaeth yr Uwch Adran yw 98.2%. Mae'r Tîm Mesur Iechyd Meddwl hefyd yn cynnal archwiliadau ar Gynlluniau Gofal a Thriniaeth. Mae canlyniadau'r archwiliadau'n cael eu bwydo i gyfarfodydd Arweinwyr Gweithredol yn lleol ac yn yr Uwch Adran i adolygu a monitro cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion. Mae'r Archwiliadau Mesur Iechyd Meddwl hyn wedi digwydd yn flynyddol, ond yn y dyfodol fe'u cynhelir bob chwe mis. • Adolygwyd gwaith Llwybr Gofal Acíwt MHLD i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer cleifion sy'n cael eu derbyn i wasanaethau cleifion mewnol, gan ganolbwyntio ar sut y rheolir risg a diogelwch yn ystod derbyniadau, yn enwedig o ran cyfeirio at driniaethau yn y cartref a dulliau eraill o drin.

<p>Hyfforddi a Datblygu</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ar 30 Mehefin 2024, roedd cydymffurfiaeth gyffredinol yr Uwch Adran o ran cymwyseddau Hyfforddiant Gorfodol Lefel 1 yn 93%, cydymffurfiaeth gyffredinol ar gyfer cymwyseddau Lefel 2 yn 88%, a chydymffurfiaeth gyffredinol ar gyfer cymwyseddau 'Arall' yn 82%. Y lefel darged ar gyfer cydymffurfio â Hyfforddiant Gorfodol yw 85%. Rhoddir dadansoddiad manwl o'r holl lefelau cymhwysedd i'r Grŵp Cyflawni Ansawdd Gwasanaeth (SQDG) i fonitro ac adolygu unrhyw feysydd o dan y targed cydymffurfio gofynnol. • Yn ogystal â'r uchod, mae'r Rhaglen Achredu Wardiau yn manylu ar nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol y disgwylir i'r holl staff sy'n gweithio ar Wardiau MHLD eu cyflawni. Mae sefyllfa'r Uwch Adran o ran Achredu Wardiau wedi gwella heb unrhyw wardiau wedi'u nodi, 23% (n5) ar statws arian, 73% ar statws efydd a thair ward yn anelu at statws aur yn y flwyddyn nesaf.
<p>Arweinyddiaeth ac Ymgysylltiad Staff</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal dwy Gynhadledd Arweinyddiaeth yn ystod 2024 fel rhan o'i ffocws ar wella diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu. Hyd yma, mae tua 700 o gydweithwyr o bob lefel wedi mynychu lleoliad yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys rheolwyr o'r Adran MHLD, ac o amrywiaeth o rolau a disgyblaethau gydag amrywiaeth o siaradwyr a gweithgareddau mewnol ac allanol ar yr agenda. • Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cyfres o raglenni dysgu ar gyfer arweinwyr presennol y Bwrdd Iechyd a darpar arweinwyr ar draws y sefydliad, ac mae hyn yn cynnwys rhaglen o hyfforddi a mentora er mwyn ymgorffori a gwneud y mwyaf o botensial mewn modd ymarferol. • Mae pecyn cymorth ymgysylltu â staff ar y fewnwyd wedi'i lansio'n ddiweddar, sy'n llawn adnoddau i gefnogi'r holl staff ar draws y sefydliad sy'n dymuno datblygu meysydd ymgysylltu â staff mewn timau. • Datblygwyd Amserlen 12 mis ar gyfer Ymweliadau MHLD (a ddechreuodd yn ddiweddar ym mis Mehefin 2024) i wneud yr Uwch Dîm Arwain yn fwy gweladwy yn yr Uwch Adran. Mae'r amserlen Ymweliadau hon yn cynnwys Sesiynau Galw Heibio er mwyn i gleifion, gofalwyr a'u teuluoedd gwrdd ag aelodau o'r uwch dîm i roi cyfle iddynt rannu eu barn a rhoi adborth am eu profiadau o ddefnyddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl.
<p>Adnoddau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae dadansoddiad bwlch galw a chapasiti wedi dechrau ar gyfer staff therapiâu gan gynnwys Therapi Galwedigaethol Datblygiadol, Ffisiotherapi, Deieteg, Therapi Iaith a Lleferydd, a Therapi Celf. Arweinir y gwaith hwn gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwyddor Iechyd. • O ran rôl fferylliaeth, bu nifer o ddatblygiadau yn y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT) i wneud y mwyaf o'r elfen fferyllol o ofal. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno modiwl rhagnodi meddalwedd EMIS yn llwyddiannus ar draws y

	Timau Cymunedol, gan alluogi rhagnodi mwy diogel, effeithiol ac amserol.
Amgylchedd ffisegol	<ul style="list-style-type: none"> Mae cynllunio strategol allweddol ar gyfer ystadau MHLD wedi dechrau gyda rhestr amlinellol o flaenoriaethau a fydd yn cefnogi cyflawni amcanion uniongyrchol ac yn llunio ein cynllunio ystadau yn y tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> - prosiect Uned Ablett- parhaus - prosiect Plas Gororau - wedi'i gwblhau - prosiect Roslin - cwblhau adolygiad o'r holl ystadau a ddefnyddir gan wasanaethau MHLD. Bydd y gwaith hwn yn cysylltu â strategaeth ystadau'r Bwrdd Iechyd. Eleni, canolbwyntiwyd yr adnoddau ar y gofynion sy'n dod i'r amlwg ar ôl eu nodi yn yr Hysbysiad Tramgwyddo (NoC) a gyhoeddwyd yn 2023/24. Mae'r uwch dîm arwain wedi arwain ar gynllun o welliannau i Leihau'r Risg o Achosion o Glymu er mwyn mynd i'r afael â materion a nodwyd yn yr NoC a hefyd i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd i nodi unrhyw faterion pellach ar draws yr uwch adran. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac wrth i'r adolygiadau gael eu cwblhau, byddant yn parhau i ychwanegu at ofynion presennol yr ystadau cyfalaf a referiw.

Mae'r tablau isod yn rhoi crynodeb byr ar rai o'r meysydd sydd yn gweld cynnydd cadarnhaol ac sydd wedi'u halinio â'r camau gweithredu penodol a raddiwyd yn Goch ac Oren yn yr adolygiad RCPsych.

CAMAU GWEITHREDU COCH	Y cynnydd hyd yma
Manylion mewngofnodi sy'n cael eu rhannu	Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr Digidol, Data a Thechnoleg - rhoddwyd datrysiaid ar waith.
Asesiad o allu perfformiad rolau gweithredol, clinigol a rheolaethol	Mae'r adolygiad o fodel gweithredu MHLD (gan ystyried canfyddiadau RCPsych) yn mynd rhagddo a bydd yn bwydo i waith model gweithredol y Bwrdd Iechyd.
Nyrs Ymgynghorol (dementia).	Mae un deiliad swydd yn y Bwrdd Iechyd. Bellach, cafwyd cymeradwyaeth ar gyfer recriwtio Nyrs Ymgynghorol ychwanegol (dementia). Mae slotiau cyfweld yn cael eu cynllunio ar gyfer mis Medi 2024.
Lefelau uchel o swyddi dros dro	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi lleihau ei ddefnydd o staff asiantaeth a staff dros dro yn sylweddol (cofnodir hyn ym mhapurau eraill y Bwrdd Iechyd). Mae'r Uwch Adran MHLD wedi datblygu Cylch Gorchwyl i helpu gyda swyddi dros dro – sydd ar hyn o bryd yng ngham cymeradwyo llywodraethu'r adran.
Diffyg rhwydweithio allanol	Chwilio am gyfleoedd i MHLD ymgysylltu â phartneriaid allanol. Mae ymgysylltu ag AaGIC yn ddefnyddiol wrth archwilio cyfleoedd datblygu staff ac arweinyddiaeth.

Modelau gofal sy'n gwrthdaro	Dechreuwyd trafodaethau gyda chefnogaeth mecanwaith y grŵp Cyngori Clinigol yn yr Uwch Adran MHLD, gyda'r nod o gytuno ar ddull gweithredu a sefydlu model cyson. Mae gweithio amlddisgyblaethol yn nodwedd allweddol o waith MHLD, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu a gwneud y mwyaf o'r sefyllfa hon.
------------------------------	--

CAMAU GWEITHREDU OREN	Y cynnydd hyd yma
Diwygio'r strwythur adrodd am bryderon/cwynion/dig wyddiadau anffodus difrifol (SUI)	Roedd adolygiad diweddar RCPsych a'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) yn cydnabod y systemau llywodraethu cynhwysfawr sy'n ymwneud â 'Gweithio i Wella' MHLD, wrth amlygu'r angen i ganolbwyntio ar ddysgu o 'Weithio i Wella'. Mae'r Uwch Adran MHLD yn datblygu'r gwaith hwn drwy fabwysiadu'r Fframwaith Sefydliadol sy'n Dysgu yn gynnar.
Cyfathrebu o'r Ward i'r Bwrdd	Datblygwyd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu MHLD ac mae'n drwy'r broses gymeradwyo llywodraethu.
Cefnogi'r Claf sy'n Dirywio ac Aseidiadau lechyd Corfforol	Mae Grŵp iechyd corfforol wedi'i sefydlu yn yr Uwch Adran MHLD. Mae polisi DRAFFT yn cael ei ystyried a bydd angen ymgynghori arno a'i gymeradwyo yn unol â'r prosesau. Mae cydweithio rhwng y Cymunedau lechyd Integredig a chydweithwyr MHLD wedi arwain at gynnydd yn yr hyfforddiant ar 'gleifion sy'n dirywio'
Adolygu Polisiâu Clinigol	Adroddir ar y sefyllfa fisol i'r grŵp cyflenwi ansawdd gwasanaeth MHLD.
Gweithio'n effeithiol gyda'r trydydd sector, gofaluwyr, partneriaid a rhanddeiliaid	Mae cylch gorchwyl cyfarfod Profiad y Claf a'r Gofalwr wedi'i adolygu. Mae CIVICA wedi'i fapio ar draws yr uwch adran MHLD.
Rhagnodi a monitro meddyginiaethau gwrthseicotig	Cynhelir archwiliadau rheolaidd ar y defnydd o gyffuriau gwrthseicotig ar gyfer pobl hŷn ac adroddir arnynt i'r Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol. (Tystiolaeth o welliannau)

Datganiad i Gloi

Ynghyd â rhaglen newid/camau strategol y Bwrdd lechyd cyfan y manylir arnynt yn Adran 1, mae **Atodiad 1** yn rhoi'r ymatebion manwl i'r argymhellion.

Trwy wrando'n well ar gleifion, teuluoedd, gofaluwyr a grwpiau staff, a thrwy'r cyfleoedd a geir yn y Grŵp Cyngori Arbenigol a gadeirir yn annibynnol, a gyda throsolwg cadarn gan Bwyllgor y Bwrdd lechyd a'r Bwrdd – mae'r Bwrdd wedi ymrwmo i wneud cynnydd sylweddol yn y meysydd cyflawni gwasanaeth a amlygwyd yn yr adolygiadau amrywiol y bu Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn craffu arnynt. Rydym yn estyn ein diolch trwy'r adroddiad hwn, i'r teuluoedd sydd wedi helpu gyda'r ystyriaeth hon hyd yn hyn. Byddwn yn cynnal trafodaethau pellach gyda Llais i lunio manylion ein dull gweithredu.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i wneud cynnydd da ar y gwaith hwn ar gyflymder cyson, gyda thystiolaeth glir bod camau gweithredu wedi'u cwblhau, a ffocws gwirioneddol ar symud ymlaen ar y cyd â chleifion a defnyddwyr, a theuluoedd – i ddarparu gofal diogel a dibynadwy i bobl Gogledd. Cymru.